

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24

Hydref 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24

Hydref 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Casgliadau ac Argymhellion	5
1. Cyflwyniad.....	7
Cefndir	7
2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24.....	8
Cyd-destun	8
Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24	9
Prisiau ynni a chynaliadwyedd	11
Cronfa brosiectau	13
Safbwynt y Pwyllgor	14
3. Diwygio'r Senedd	16
Adnoddau i ddiwygio'r Senedd.....	16
Strategaeth ffyrdd o weithio	18
Safbwynt y Pwyllgor	19
4. Y gweithlu	22
Costau staffio	22
Costau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.....	24
Safbwynt y Pwyllgor	24
5. Ymgysylltu.....	27
Safbwynt y Pwyllgor	28

Casgliadau ac Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi 'Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24' ac, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'n cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2023-24, ac yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r gyllideb hon.
..... Tudalen 15

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn mabwysiadu dull cydweithredol o leihau'r defnydd o ynni ar ystâd y Senedd ac yn ymgysylltu ag Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn i gasglu syniadau ac i gynllunio a gweithredu prosiectau a pholisïau sy'n bodloni'r nodau hyn. Tudalen 15

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd darparu diweddariadau o bryd i'w gilydd ynghylch y canlynol:

- y mentrau arbed ynni sydd wedi'u cynllunio a'r rhai sydd wedi'u gweithredu;
- effeithiolrwydd y mentrau hynny o ran sicrhau canlyniadau cynaliadwy;
- a'r effaith gysylltiedig ar gostau ac arbedion. Tudalen 15

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn gwneud y canlynol:

- ystyried y manteision ariannol a gweithredol neu fel arall o brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel fel dewis arall yn lle ymestyn y brydles gyfredol; ac
- yn darparu diweddariadau rheolaidd ar yr opsiynau a werthuswyd mewn perthynas â dyfodol pob adeilad ar yr ystâd er mwyn sicrhau tryloywder a gwerth am arian.
..... Tudalen 20

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi diweddariad cyn gynted ag y bydd penderfyniadau ynghylch dyfodol swyddfa Bae Colwyn a phresenoldeb y Senedd yn y gogledd wedi'u gwneud. Tudalen 21

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Senedd ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gyfer staff a/neu staff ar gyflogau is a allai wynebu anawsterau ariannol wrth i effeithiau'r cynnydd mewn costau byw gael eu teimlo. Tudalen 25

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Senedd roi camau ar waith i werthuso effeithiolrwydd y mentrau y mae wedi'u cyflwyno i liniaru effaith pwysau costau byw ar staff a rhannu ei ganfyddiadau o adolygiadau o'r fath. Tudalen 26

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn gofyn am farn yr Aelodau er mwyn deall yn well y gwaith ymgysylltu y maent am ei ddatblygu ac, unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, dylai roi diweddariad i'r Pwyllgor ar sut y gellir cyflwyno cynigion o'r fath o fewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes. Tudalen 28

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynnwys llinell benodol yn y gyllideb ar gyfer Diwygio'r Senedd yn y gyllideb ddrafft ac yn nodi bwriad Comisiwn y Senedd i ddarparu cymaint o dryloywder â phosibl wrth gyflwyno costau y gellir eu priodoli i gynlluniau ar gyfer Diwygio'r Senedd yng nghyllidebau'r dyfodol..... Tudalen 20

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. Yn ôl Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd:

“Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Senedd gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru.”¹

2. Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y Gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn datgan:

“Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymhell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn.”²

3. Gosodwyd Cyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) ar gyfer 2023-24³ (y gyllideb ddrafft) ar 28 Medi 2022. Ystyriodd y Pwyllgor gynigion y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2022,⁴ a chlywed tystiolaeth gan:

- Ken Skates AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu;
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd;
- Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Senedd Cymru.

¹ Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

² Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

³ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022

⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 5 Hydref 2022

2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24

Cyd-destun

4. Cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd Ddatganiad o Egwyddorion⁵ y mae'n disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol⁶ ei ystyried wrth lunio ceisiadau cyllidebol. Fe wnaeth y Pwyllgor presennol ailddatgan y dylai'r gyrff barhau i gymhwyso'r egwyddorion hyn yn y Chweched Senedd, yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf 2021.⁷

Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol:

- Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu tymor hir yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.
- Ni ddylai gyrff a ariennir yn uniongyrchol ragdybio cynnydd yn eu cyllidebau, ni waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.
- Dylai gyrff a ariennir yn uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.
- Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid ategu unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau o'r fath. Yn ogystal, dylid egluro a meintoli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

5. Ar 14 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor i nodi gwahanol ffactorau i lywio'r gwaith blaengynllunio ariannol ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wrth iddynt baratoi eu cyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.⁸

⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Datganiad o Egwyddorion y mae Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru yn disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol, Mai 2019

⁶ Y gyrff a ariennir yn uniongyrchol yw'r rheini sy'n cael eu cyllid yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru ac mae'r canlynol yn eu plith: Archwilio Cymru; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a Chomisiwn y Senedd.

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 8 Gorffennaf 2021

⁸ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 14 Gorffennaf 2022

Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24

6. Cyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2023-24 yw £67.6 miliwn, sy'n gynydd o 4.1 y cant ers 2022-23, neu £2.6 miliwn. O hyn, cynyddodd gwariant sy'n ymwneud â'r Comisiwn (nad yw'n cynnwys gwariant sy'n ymwneud â'r Aelodau) gan gynnwys dibrisiant, 5.1 y cant, neu £2.3 miliwn, ac roedd £571,000 o'r cynnydd hwn wedi'i briodoli i gostau'n ymwneud â Diwygio'r Senedd.

7. Mae gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn (ac eithrio llog a dibrisiant), y mae gan y Comisiwn reolaeth drosto, yn £41.1 miliwn, sef cynnydd o 5.9 y cant neu £2.3 miliwn. Mae'r costau eraill yn cynnwys:

- Mae cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig yn £17.8 miliwn, sef cynnydd o 1.6 y cant neu £282,000.
- Mae costau dibrisiant a thaliadau llog y Comisiwn, sydd bellach yn cael eu dangos yn y gyllideb ar ôl gweithredu'r safon gyfrifo newydd ar gyfer lesedd IFRS 16, yn £6.3 miliwn, sydd wedi lleihau ychydig o £14,000 yn 2022-23.
- Mae costau cyllid pensiwn yr Aelodau yn £1.8 miliwn, yn ddigynnewid o 2022-23.

8. Rhoddir llai o ffocws yn yr adroddiad hwn i'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae cyflog a lwfansau yr Aelodau a'u staff cymorth yn cael eu gosod gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol, felly nid oes gan y Comisiwn reolaeth dros osod y gyllideb hon. Mae cyllid ar gyfer y Comisiwn ac adnoddau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol i ddefnydd y Comisiwn o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau.⁹ Felly, mae unrhyw danwariant yn erbyn y Penderfyniad hwn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

9. Mae'r gyllideb ddrafft bellach yn dangos llinell yn y gyllideb "i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol" (gweler Tabl 1). Mae hyn yn dilyn y cais am gyllid ychwanegol i gefnogi'r Bwrdd yng Nghyllideb Atodol 2022-23. Mae'r llinell hwn yn y gyllideb yn cael ei gynyddu £70,000 yn ychwanegol yn 2023-24.

⁹ Y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd), Defnydd Comisiwn y Cynulliad o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, Mai 2018

Tabl 1: Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24¹⁰

Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn	2022-23	2023-24	Newid	
	£000	£000	£000	%
Cyflogau staff a chostau cysylltiedig	£27,416	£28,357	£941	3.4%
Adeiladau a chyfleusterau	£5,489	£6,069	£580	10.6%
Costau TGCh	£2,614	£2,801	£187	7.2%
Costau eraill	£2,002	£1,961	-£41	-2.0%
Costau Diwygio'r Senedd	£0	£571	£571	-
Cyfanswm Gwariant Refeniw	£37,521	£39,759	£2,238	6.0%
Cyfanswm Incwm	-£220	-£170	£50	- 22.7%
Gwariant Cyfalaf	£516	£500	-£16	-3.1%
Cronfa Prosiectau	£970	£1,000	£30	3.1%
Cyfanswm yr adnoddau gweithredol (ac eithrio llog / dibrisiant)	£38,787	£41,089	£2,302	5.9%
Taliadau Llog	£880	£866	-£14	-1.6%
Dibrisiant ac amorteiddiad	£5,410	£5,406	-£4	-0.1%
Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn	£45,077	£47,361	£2,284	5.1%
Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig	£17,552	£17,834	£282	1.6%
Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau	£97	£101	£4	4.1%
Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau annibynnol	£477	£547	£70	14.7%
Costau cyllid pensiwn yr Aelodau	£1,800	£1,800	£0	0.0%
Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn	£65,003	£67,643	£2,640	4.1%

10. Nododd y Comisiynydd fod y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2023-24 yn heriol iawn gan ddweud eu bod wedi ystyried nifer o ffactorau ychwanegol, gan gynnwys:

¹⁰ Ffynhonnell: Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24, 28 Medi 2022 a chyfrifiadau Ymchwil y Senedd

*"... the increasing utility costs, and alongside that, Senedd reform and the ongoing pressures that we face concerning the pandemic, post-Brexit scrutiny, and, of course, quite a significant amount of legislation."*¹¹

11. Disgrifiodd y Comisiynydd hefyd ddau ffactor allweddol a ystyriwyd gan y Comisiwn wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2023-24:

*"One is the Commission's set of strategic objectives to provide the best possible parliamentary support that we can, to serve the people of Wales as best possible and make sure that citizens are at the heart of what we do, and to engage thoroughly with them, and then, to ensure that we use our resources sustainably ... And secondly ... we consider the Finance Committee's statement of principles, and I can confirm that the statement of principles was considered at all times during the process of setting the budget."*¹²

12. Cadarnhaodd y Comisiynydd fod y Comisiwn wedi ystyried nifer o senarios cyllidebol, gan gynnwys pennu cyllideb is, ond daeth i'r casgliad a ganlyn:

*"...that would have resulted in pretty significant impairment of our ability to be able to deliver in the sixth Senedd; it would have had impacts in terms of public engagement, in terms of moving towards a more energy-efficient estate, and it would have had staffing repercussions as well."*¹³

Prisiau ynni a chynaliadwyedd

13. Yn ei ddogfen gyllideb ddrafft, dywed y Comisiwn mai'r ffactor mwyaf sy'n achosi'r cynnydd mewn costau gweithredu nad ydynt yn ymwneud â staff yw'r cynnydd mewn costau ynni, sy'n cyfateb i tua £700,000 ar gyfer 2023-24.¹⁴

14. Tynnodd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2021-22¹⁵ sylw at y ffaith yn y gorffennol ei fod wedi'i "hinswleiddio'n weddol dda" rhag cynnydd mewn prisiau yn y farchnad ynni o ganlyniad i gontract gyda Gwasanaethau Masnachol y Goron, drwy Lywodraeth Cymru. Mae cost gyffredinol nwy a thrydan wedi codi tua 10 y cant yn 2021-22. Bydd y cytundeb

¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 19

¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 20

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 25

¹⁴ Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24, 28 Medi 2022, tudalen 8

¹⁵ Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, Mehefin 22, tudalen 96

yn cynnig rhywfaint o amddiffyniad yn ystod y flwyddyn bresennol, yn 2022-23, ond dywedodd y Comisiwn y byddai "cynnydd sylweddol mewn costau uned" yn ystod y flwyddyn honno,¹⁶

15. Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor fod y Comisiwn yn blaenoriaethu ac yn gweithredu newidiadau sy'n gysylltiedig â'i Strategaeth Carbon Niwtral 2021-2030 sy'n syml ac yn gost-effeithiol, ar y cyfle cyntaf.¹⁷ Wrth ymateb dywedodd y Comisiwn¹⁸, yn 2021-22 a 2022-23, y byddai'n bwrw ymlaen i osod rhagor o oleuadau LED newydd yn Nhŷ Hywel ac yn cyflwyno mesuryddion newydd i dargedu meysydd lle gall leihau'r defnydd o ynni. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn bwriadu ymuno â rhwydwaith Gwresogi Ardal Caerdydd yn ystod 2024, i ddefnyddio gwres gwastraff o losgydd Caerdydd i wresogi ystâd y Senedd, a byddai hynny'n rhatach na chostau nwy cyfanwerthol. Darparwyd rhagor o wybodaeth am flaenoriaethau lefel uchaf y Comisiwn yn ei strategaeth ar gyfer lleihau ei gostau ynni a'i ôl troed carbon i'r Pwyllgor drwy ohebiaeth a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2022.¹⁹

16. Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor fod y Comisiwn wedi'i gysgodi rhywfaint oherwydd bod y cyfraddau cyfleustodau yn sefydlog tan ddiwedd mis Mawrth 2023, ond ychwanegodd ei fod yn wynebu her arbennig²⁰ yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Cadarnhaodd y Comisiynydd:

*"The increase in utility costs has resulted in a 1 per cent increase in that overall budget. Had it not been for the increase in energy costs, then we'd be presenting a budget with an overall increase of 1 per cent less."*²¹

17. Nododd Cyfarwyddwr Cyllid y Senedd fod y gyllideb ar gyfer costau cyfleustodau wedi cynyddu o £552,000 i dros £1.2 miliwn²² a bod gwaith wedi'i wneud dros yr haf i weld a fyddai modd gwneud arbedion effeithlonrwydd i dalu'r costau cyfleustodau ychwanegol, ond daeth i'r casgliad nad oedd yn bosibl sicrhau cynnydd o tua £669,000 yn y tymor byr o fewn cyllidebau presennol.²³

18. Nododd y Comisiynydd opsiynau pellach a oedd yn cael eu hystyried i gadw costau cyfleustodau mor isel â phosibl. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau tymheredd adeiladau'r Senedd a Thŷ Hywel o 1 i 1.5 y cant a mwy o ddefnydd o systemau ynni cylchfaol i atal y defnydd o ynni

¹⁶ Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2021-22, Mehefin 22, tudalen 96

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2022-23, Hydref 2021, Argymhelliad 8

¹⁸ Comisiwn y Senedd, Ymateb i'r Adroddiad ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2022-2023, Tachwedd 2022

¹⁹ Lythyr gan Ken Skates AS, 14 Hydref 2022

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 20

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 22

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 27

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 27

mewn ystafelloedd, gofodau, ac ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n helaeth, ac yn enwedig ar benwythnosau.²⁴ Yn ôl y Comisiynydd:

*"Those considerations will lead us to be able to reduce our gas consumption by 15 per cent, and in so doing reduce the cost of gas."*²⁵

19. Ychwanegodd y Comisiynydd bod cyfle i Aelodau gyfrannu at ystyriaethau sy'n parhau ynghylch sut y gallwn leihau costau ynni.²⁶

20. Pan ofynnwyd iddo am rwydwaith Gwresogi Ardal Caerdydd, cadarnhaodd y Comisiynydd y byddai'r Comisiwn yn ymuno â'r fenter yn 2024 ac y bydd yn arwain at fuddion mewn blynnyddoedd ariannol yn y dyfodol, ond nid o reidrwydd yn 2023-24.²⁷ Ychwanegodd y Prif Weithredwr 'ein bod ni'n gobeithio y bydd yn arwain at ostyngiad yn ein pris tanwydd a bod hynny'n ateb mwy cynaliadwy hefyd'.²⁸

Cronfa brosiectau

21. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cronfa brosiectau, sy'n cynnwys cyllideb refeniw a chyfalaf,²⁹ ar gyfer "eitemau â blaenoriaeth".³⁰ Mae'n dweud y bydd "cynlluniau buddsoddi yn cael eu blaenoriaethu yn ôl yr angen a'r adnoddau ariannol a phersonél sy'n ofynnol i'w cyflawni".³¹ Mae cyllideb arfaethedig o £1.5 miliwn ar gyfer y gronfa brosiectau ar gyfer 2023-24, o'i gymharu â £1.486 miliwn yn 2022-23, sef cynnydd o 0.9 y cant neu £14,000. Darparwyd gwybodaeth bellach ynglŷn â phrosiectau a nodwyd ar gyfer 2023-24 a oedd wedi'u cynnwys yn y gronfa brosiectau i'r Pwyllgor gan y Comisiynydd mewn gohebiaeth a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2022.³²

22. Eglurodd y Comisiynydd mai pwrpas y gronfa brosiectau oedd cefnogi amcanion strategol y Comisiwn:

"The project fund has remained at there or thereabouts £1.5 million for the past six or so years, and the project fund enables us to modernise the estate,

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 31

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 55

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 31

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 41

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 45

²⁹ Mae costau'r gronfa brosiectau wedi'u cynnwys yn Nhabl 1 o dan y llinellau cyllideb "Cronfa Brosiectau" a "Gwariant Cyfalaf".

³⁰ Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24, 28 Medi 2022

³¹ Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24, 28 Medi 2022

³² Llythyr gan Ken Skates AS, 14 Hydref 2022

make it more energy efficient, which, of course, is vitally important right now, and to carry out important engagement work with the people of Wales."³³

23. Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd a fyddai modd defnyddio'r gronfa brosiectau i geisio lleihau costau ynni ar draws yr ystâd, dywedodd:

*"... that's exactly what we've been using the project fund for—we've been rolling out the installation of LED lights, for example, and I mentioned a little earlier that we have now installed a zonal heating system. That wasn't in place in previous years. That allows us to press down energy costs."*³⁴

24. Ychwanegodd y Comisiynydd y byddai'r Comisiwn yn hoffi symud yn gyflymach, ond byddai hynny'n gofyn am gyllideb fwy.³⁵

Safbwynt y Pwyllgor

25. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr hinsawdd economaidd anodd, yn ogystal â nodau uchelgeisiol y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd, wedi gwneud y broses o osod cyllideb ar gyfer 2023-24 yn arbennig o heriol ac mae'n nodi bod hon yn sefyllfa sy'n wynebu pob corff sector cyhoeddus wrth iddynt gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

26. Mae'r Pwyllgor yn falch o'r ffordd ddoeth y mae'r Comisiwn wedi datblygu ei gynigion cyllideb ac yn enwedig y ffordd y mae wedi mynd ati i wrando ar argymhellion blaenorol y Pwyllgor, yn enwedig o ran cadw at y Datganiad o Egwyddorion a chyflwyno ei gyllideb mewn ffordd glir, dryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn credu bod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 yn rhesymol ac yn gymesur.

27. Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr am y cynnydd sylweddol mewn costau cyfleustodau a'i effaith ar allu'r Comisiwn i ddarparu gwasanaethau craidd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r mentrau a ddatblygwyd gan y Comisiwn i leihau'r defnydd o ynni ledled ystâd y Senedd ac mae'n disgwyl â diddordeb am ganlyniadau'r datblygiadau hyn. Mae angen buddsoddiad hirdymor ar faterion sy'n ymwneud â lleihau'r defnydd o ynni ac ymgorffori cynaliadwyedd, ac mae'r Pwyllgor o'r farn bod mentrau i leihau'r defnydd o nwy a thrydan yn ogystal â'r penderfyniad i ymuno â rhwydwaith Gwresogi Ardal Caerdydd yn gamau cadarnhaol tuag at gyflawni nodau cynaliadwyedd y Comisiwn.

28. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu penderfyniad y Comisiwn i ddefnyddio dyraniadau'r gronfa brosiectau i weithredu newidiadau i wella effeithlonrwydd ynni ar draws yr ystâd. Mae'n

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 19-23

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 54

³⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 55

credu bod gosod goleuadau LED a'r defnydd o wresogi cylchfaol yn Nhŷ Hywel a'r Senedd yn atebion syml ond effeithiol a ddylai helpu i leihau costau a gwrthio'r Comisiwn tuag at gyflawni ei nodau cynaliadwyedd. Fel gyda phob corff cyhoeddus, mae dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau ei fod yn gweithio mewn modd mor gynaliadwy â phosibl, ac mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion i sicrhau bod hyn yn digwydd.

29. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod llwyddiant y mentrau hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar newid ymddygiad ac ymgysylltu â'r rhai sy'n gweithio ar draws ystâd y Senedd. Felly, mae'r Pwyllgor yn falch o weld y Comisiwn yn ymgysylltu â staff y Comisiwn, yn ogystal ag Aelodau a'u staff cymorth ynglŷn â'r mater hwn ac mae'n credu bod cydweithio pellach yn hanfodol i wneud defnydd y Comisiwn o ynni'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'r Pwyllgor hefyd yn annog y Comisiwn i gyflymu'r broses o wneud newidiadau i ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r defnydd o ynni ac i ymchwilio i ddulliau ariannu arloesol yn y maes hwn.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi 'Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24' ac, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'n cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2023-24, ac yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r gyllideb hon.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn mabwysiadu dull cydweithredol o leihau'r defnydd o ynni ar ystâd y Senedd ac yn ymgysylltu ag Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn i gasglu syniadau ac i gynllunio a gweithredu prosiectau a pholisïau sy'n bodloni'r nodau hyn.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd darparu diweddariadau o bryd i'w gilydd ynghylch y canlynol:

- y mentrau arbed ynni sydd wedi'u cynllunio a'r rhai sydd wedi'u gweithredu;
- effeithiolrwydd y mentrau hynny o ran sicrhau canlyniadau cynaliadwy;
- a'r effaith gysylltiedig ar gostau ac arbedion.

3. Diwygio'r Senedd

Adnoddau i ddiwygio'r Senedd

30. Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi, os ydym am gyflawni rhaglen Ddiwygio'r Senedd erbyn 2026, bydd buddsoddi mewn adnoddau staffio a chostau eraill yn dechrau erbyn 2023-24.³⁶ Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi amcangyfrifon cynnar o "gostau Diwygio'r Senedd" yn 2023-24 o £571,000, sy'n cynnwys:

- £462,000 ar gyfer staffio yn y gyfarwyddiaeth busnes a £74,000 yn y gyfarwyddiaeth adnoddau; a
- £35,000 ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â staff. Darperir amcangyfrifon ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â staff hefyd ar gyfer 2024-25 o £450,000 ac o £1,730,000 ar gyfer 2025-26.

31. Yn 2023-24, bydd costau staffio yn darparu adnoddau ar gyfer ffrydiau gwaith ar waith adolygu gweithdrefnol, cydgysylltu busnes Diwygio'r Senedd ac adolygiadau o raglenni busnes. Yn ogystal, bydd angen cymorth pellach ar lefel uwch a gweinyddol i "alluogi'r staff presennol i ganolbwyntio ar Ddiwygio'r Senedd".³⁷ Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn nodi:

*"...Mae'r costau staffio hyn yn ymwneud â'r swyddi ychwanegol hynny sy'n dechrau yn 2023-24 yn unig. Mae costau staffio ychwanegol yn debygol, gyda swyddi ychwanegol yn dechrau yn 2024-25 a 2025-26, ond nid oes rhagamcanion cywir ar gael ar hyn o bryd."*³⁸

32. Mae'r gyllideb ddrafft yn amlygu'r amserlenni heriol ar gyfer Diwygio'r Senedd³⁹ ac, yn benodol, yn nodi bod y Comisiwn am ddechrau ystyried newidiadau strategol yn ystod y Chweched Senedd fel sylfaen ar gyfer gweithredu cynigion deddfwriaethol.

33. Mae'r ddogfen gyllideb ddrafft hefyd yn cyfeirio at nifer o arbedion ac effeithlonrwydd posibl a allai helpu i gyfyngu ar gynnydd yn y dyfodol o ran gofynion adnoddau.

"Fe wnaeth adolygiad manwl o'r gyllideb staff a'r gyllideb nad yw'n ymwneud â staff ym mis Awst 2022 nodi effeithlonrwydd ac arbedion posibl, a allai wrthbwyso rhai o'r costau a ddaw yn sgil twf yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn

³⁶ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022, tudalen 11

³⁷ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022, tudalen 11

³⁸ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022, tudalen 11

³⁹ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022, tudalen 10

wrthi'n datblygu'r opsiynau posibl hyn fel Strategaeth Rheoli Adnoddau, a fydd yn llywio ei ddull o ymdrin â gofynion adnoddau ar gyfer gweddill tymor y Chweched Senedd."⁴⁰

34. Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor fod y dyraniadau ar gyfer Diwygio'r Senedd yn gysylltiedig yn bennaf ag adnoddau staffio sy'n cyd-fynd â diwygio'r Senedd, gan ychwanegu 'ein bod ni'n rhagweld y bydd costau'n cynyddu ymhellach yn 2024-25'.⁴¹

35. Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd sut mae'r Comisiwn yn cynnig gwahaniaethu rhwng costau llety sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd a chostau eraill sy'n parhau, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ffyrdd o Weithio newydd, dywedodd y Comisiynydd:

*"... we are ring-fencing costs as much as possible with regard to Senedd reform, in the interests of transparency."*⁴²

36. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyllid:

*"... you'll see within the draft budget document a new line being included for Senedd reform costs. So, anything related to Senedd reform, whether that be staff or additional fees, for example, will be ring-fenced to be as transparent as possible."*⁴³

37. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor bod y Comisiwn yn tybio y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno ymhen rhyw flwyddyn ac y bydd yn cymryd tua blwyddyn i fynd drwy'r gwahanol gyfnodau.⁴⁴ Ychwanegodd y Prif Weithredwr:

*"... at this stage, we can't see with a huge amount of clarity what we need to budget for beyond the coming financial year, which we're asking you about. We have done our best to estimate what staff will be needed to support the passage of the legislation and to prepare the accommodation options in this coming year and so, for full transparency, we've put that in. Beyond that, we're not in a position to make a realistic estimate, so it would be misleading to put a figure forward when the work is yet to be done."*⁴⁵

⁴⁰ Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24, 28 Medi 2022, tudalen 15

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 111

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 104

⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 105

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 112

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 112

38. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd costau llawn Diwygio'r Senedd yn cael eu cynnwys yn y memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil pan gaiff ei gyflwyno, er mwyn sicrhau 'tryloywder llwyr'.⁴⁶

Strategaeth ffyrdd o weithio

39. Ar 14 Mawrth 2022,⁴⁷ trafododd y Comisiwn y Strategaeth Ystadau, Dyfodol Hyblyg a'r Adolygiadau Capasiti a chytunwyd i'w cyfuno yn Strategaeth Ffyrdd o Weithio integredig o ran sut y bydd staff y Comisiwn yn gweithio yn y tymor byr, canolig a thymor hwy.⁴⁸ Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi:

*"Bydd y Strategaeth yn rhoi anghenion yr Aelodau a'r Senedd yn gyntaf, ac yn cynnwys uchelgeisiau sy'n sicrhau effaith gadarnhaol i'r Aelodau a'u staff cymorth drwy ddarparu gwasanaethau mwy ymatebol, effeithlon ac effeithiol."*⁴⁹

40. Yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23, argymhellodd y Pwyllgor bod y Comisiwn yn rhoi diweddariadau ar y modd y mae'r Strategaeth Ffyrdd o Weithio newydd; y gofynion ar gyfer gofod swyddfa gan Lywodraeth Cymru, ac unrhyw gynigion ar gyfer diwygio'r Senedd, yn effeithio ar gynlluniau'r Comisiwn ar gyfer yr ystâd, â'i anghenion o ran gofod swyddfa, yn enwedig pan allai hynny olygu goblygiadau o ran adnoddau.⁵⁰ Rhoddodd y Comisiwn ddiweddariad byr mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor ar 2 Chwefror 2022, a oedd yn sôn am ddatblygu Strategaeth Ystadau.⁵¹

41. Esboniodd y Comisiynydd fod y Strategaeth Ffyrdd o Weithio yn cynrychioli'r newid mwyaf posibl i'r ffordd y mae'r Senedd yn gweithredu ers 2006, pan grëwyd adeilad y Senedd ei hun.⁵² Aeth ymlaen i ddweud:

"... it's no exaggeration to say that the ways of working strategy is going to be an immense piece of work, and certainly the future of the Cardiff Bay accommodation is a key factor. The regional working work stream as well, and how we ensure that we respond to Members and Members' staff and

⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 109

⁴⁷ Comisiwn y Senedd, *Agenda*, 14 Mawrth 2022

⁴⁸ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022, tudalen 12

⁴⁹ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022, tudalen 12

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2022-23*, Hydref 2021, Argymhelliad 7

⁵¹ *Llythyr gan Ken Skates AS*, 2 Chwefror 2022

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 99

*Commission staff needs for ways of working, in terms of remote and hybrid working.*⁵³

42. O ran presenoldeb Llywodraeth Cymru yn adeilad Tŷ Hywel a'r defnydd o'r Pierhead yn y dyfodol fe gadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y Comisiwn wrthi'n trafod gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â defnydd yr ystâd yn y dyfodol.⁵⁴ Cadarnhaodd hefyd nad yw Prifysgol Caerdydd yn defnyddio ei safle yn y Pierhead mwych.⁵⁵

43. Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd a oedd y Comisiwn wedi ystyried prynu adeilad swyddfeydd Tŷ Hywel yn lle ymestyn y brydles gyfredol pan ddaw i ben ymhen 10 mlynedd, dywedodd wrth yr Aelodau:

*"... that is a consideration that was put to the Commission in June of this year. We're now seeking professional advice, not just on that, but on a number of core options for the future of the entire estate, but specifically, with regard to Tŷ Hywel, how we deal with the building once the lease expires in 2032."*⁵⁶

44. Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd am ddyfodol presenoldeb ffisegol y Senedd yn y gogledd, dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor:

*"... it's felt by Commissioners that it's absolutely essential to maintain a presence in north Wales. But equally there's a feeling that perhaps the Colwyn Bay office doesn't offer the best space to engage with the public, and therefore we engaged in discussions with Welsh Government with a view to potentially sharing space at Llandudno Junction ... The executive board will consider the next steps in terms of the potential sharing of space. They'll then make recommendations to the Commission and I anticipate a decision will be made on the future of the Colwyn Bay office by the end of this calendar year."*⁵⁷

Safbwynt y Pwyllgor

45. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r gwaith sy'n gysylltiedig â chyflawni cynigion yn ymwneud â Diwygio'r Senedd fydd yr her sefydliadol fwyaf i'r Comisiwn hyd yma.

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 99

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraffau 79 ac 80

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraffau 79 ac 80

⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 77

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 102

46. Mae'r Pwyllgor hefyd yn deall yr anawsterau a wynebwr gan y Comisiwn wrth wahanu costau parhaus cynnal a chadw'r ystâd bresennol oddi wrth y buddsoddiad y bydd ei angen i gefnogi Diwygio'r Senedd wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd ac mae'n croesawu ymdrechion y Comisiwn i ddarparu tryloywder yn y maes hwn. Mae'n hanfodol bod y Comisiwn yn rhoi eglurder ynghylch y costau hyn a bod gan y Pwyllgor ddigon o gyfleoedd i graffu'n fanwl ar gynigion o'r fath.

47. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau hirdymor sy'n wynebu'r Comisiwn wrth iddo ddatblygu ei Strategaeth Ystadau ac mae ganddo ddiddordeb arbennig yn effaith Diwygio'r Senedd ar unrhyw newidiadau arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys yr angen posibl am fwy o ofod swyddfa i ddarparu ar gyfer mwy o Aelodau yn y Seithfed Senedd.

48. Mae'r Pwyllgor hefyd yn galw ar y Comisiwn i archwilio cymaint o opsiynau â phosibl er mwyn gwneud yn siŵr y gellir sicrhau gwerth am arian yn y ffordd y caiff ei adeiladau eu rheoli. Yn arbennig, mae'n annog y Comisiwn i ystyried manteision hirdymor prynu adeilad Tŷ Hywel, neu fel arall, yn lle ymestyn y brydles gyfredol. Mae hyn yn ailadrodd barn y Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad a argymhellodd ym mis Hydref 2014 y dylai'r Comisiwn fynd ar drywydd cyfleoedd i brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel.⁵⁸ Mae'r Pwyllgor yn credu bod y safbwyntiau hyn yn parhau i fod yn ddilys ac mae'n gofyn i'r Comisiwn eu hystyried o'r newydd.

49. Mae'r Pwyllgor yn falch bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddyfodol swyddfa Bae Colwyn. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ei bod yn bwysig cadw presenoldeb yn y gogledd ac mae'n croesawu'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal ynghylch rhannu swyddfeydd â Llywodraeth Cymru os yw hyn yn darparu ateb gwell a mwy effeithiol o ran cost.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynnwys llinell benodol yn y gyllideb ar gyfer Diwygio'r Senedd yn y gyllideb ddrafft ac yn nodi bwriad Comisiwn y Senedd i ddarparu cymaint o dryloywder â phosibl wrth gyflwyno costau y gellir eu priodoli i gynlluniau ar gyfer Diwygio'r Senedd yng nghyllidebau'r dyfodol.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn gwneud y canlynol:

- ystyried y manteision ariannol a gweithredol neu fel arall o brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel fel dewis arall yn lle ymestyn y brydles gyfredol; ac
- yn darparu diweddariadau rheolaidd ar yr opsiynau a werthuswyd mewn perthynas â dyfodol pob adeilad ar yr ystâd er mwyn sicrhau tryloywder a gwerth am arian.

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, *Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015-16*, Hydref 2014, Argymhelliad 4

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi diweddariad cyn gynted ag y bydd penderfyniadau ynghylch dyfodol swyddfa Bae Colwyn a phresenoldeb y Senedd yn y gogledd wedi'u gwneud.

4. Y gweithlu

Costau staffio

50. Yn ei gyllideb ddrafft, mae'r Comisiwn yn dweud ei fod yn bwriadu cynllunio "ar gyfer y newid mwyaf y mae'r sefydliad wedi'i wynebu hyd yma ac ymateb iddo", a fydd yn gofyn am "gynllunio gweithlu mewn ffordd aeddfed a hirdymor".⁵⁹

51. Mae newidiadau i gostau staffio amcangyfrifedig o fewn y gyllideb ddrafft yn seiliedig ar gytundeb cyflog hirdymor ar gyfer staff y Comisiwn yn seiliedig ar chwyddiant cyflog hanesyddol yng Nghymru, gan arwain at ddyfarniad cyflog o 2.4 y cant. Y Bwrdd Taliadau Annibynnol sy'n penderfynu ar godiadau cyflog Aelodau a'u staff cymorth. Mae'n gwneud Penderfyniad blynyddol ar gyflogau staff cymorth yr Aelodau a gallai wneud Penderfyniad brys i benderfynu ar daliadau yr Aelodau. Mae'r cynnydd wedi'i seilio ar ddata yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022, ond mae wedi'i gyfyngu ar 3 y cant. Mae'r gostyngiad mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a ddaw i rym ar 6 Tachwedd 2022, hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb ddrafft.⁶⁰

52. Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd a oedd gan y Comisiwn lefelau priodol o staff yn y meysydd cywir i ymdrin â gofynion newidiol y flwyddyn i ddod, ei ymateb oedd ei fod yn 'hyderus bod y lefelau priodol gennym', ond bod y gyllideb staff yn 'cael ei 'rheoli'n agos' ac 'ein bod wedi gallu gweithredu mewn modd eithaf cynnil o ran niferoedd staffio'.⁶¹ Ychwanegodd y Comisiynydd:

*"The demands ... are increasing all of the time, but we're focused on ensuring that human resource is allocated in a way that is meeting the priorities of the sixth Senedd."*⁶²

53. Nododd Prif Weithredwr hefyd:

*"... part of our capacity review is to make sure that we have the capacity at the right grade and in the right quantity. So, it is something that we do keep constantly under review."*⁶³

⁵⁹ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022, tudalen 14

⁶⁰ Comisiwn y Senedd, *Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24*, 28 Medi 2022, tudalen 15

⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraffau 123 ac 124

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraffau 123 ac 124

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 142

54. Cadarnhaodd y Comisiynydd fod y setliad cyflog presennol ar waith hyd at 2025⁶⁴ ac nad oes unrhyw 'fwriad i edrych arno'n gynharach oherwydd ei fod yn gontract sydd gennym ar waith'.⁶⁵ Ychwanegodd y Comisiynydd:

*"... there are other ways and means of supporting staff on the lowest levels of salary, including those services such as the hardship advance."*⁶⁶

55. O ran rhoi cymorth i staff i helpu gyda'r cynnydd mewn costau byw, dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor fod holl staff y Comisiwn yn cael y cyflog byw o leiaf⁶⁷ ac amlinellodd y camau a gymerwyd gan y Comisiwn yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r rhai blaenorol.

*"In terms of initiatives, there is an employee assistance programme. That's a confidential service and it includes debt advice. In May of this year, the executive board also launched a hardship advance so that staff are able to draw down up to £999 and repay it steadily over two years. In addition, we've got a health and well-being strategy that focuses very much on mental health and well-being, but there is also a strong focus on financial well-being within it. And, of course, there are a number of salary sacrifice schemes in place, including travel and bike loans."*⁶⁸

56. Ychwanegodd y Comisiynydd fod y Comisiwn yn gallu ymateb i ofynion staff y Comisiwn a'r Aelodau a'u staff drwy'r arolwg staff ac, mewn perthynas â helpu â gofal plant, dywedodd fod pecyn cyfan o fecanweithiau i gefnogi rhieni sy'n gweithio, gan gynnwys rhieni sengl.⁶⁹

57. Dywedodd y Comisiynydd ei bod yn rhy gynnar i werthuso'r defnydd o'r mentrau hyn ac y gallai fod yn werth aros tan yn ddiweddarach yn yr hydref i weld y niferoedd a fydd yn manteisio arnynt, oherwydd 'nid ydym yn wir mynd i deimlo'r effaith lawn tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn hon'.⁷⁰

58. Pan ofynnwyd iddo am effaith y gostyngiad mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyllideb y Comisiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid fod y ffigurau hynny'n cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft:

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 158

⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 160

⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 160

⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 154

⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 154

⁶⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 167

⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 156

*"That overall figure is in the region of £300,000 and we felt it was prudent to remove that from the budget rather than maintain it and then come back to the Senedd with a supplementary budget and, at a later date, remove that figure."*⁷¹

59. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid hefyd egluro'r effaith y byddai'r gostyngiad yn ei chael ar gyllideb bresennol 2022-23:

*"The savings for this financial year will be around £75,000 on the Commission side and then an element for the determination. So, we look at both in isolation and then put recommendations to the Commission, and, all things being as expected, you should expect a supplementary early in January."*⁷²

Costau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol

60. Mae'r Comisiwn yn nodi yn ei ddogfen gyllideb ddrafft nad yw'n bosibl rhagweld penderfyniadau y gallai'r Bwrdd ddewis eu gwneud ar gyfer eu Penderfyniad yn 2023-24 ac mae wedi cymhwyso'r datchwyddwr CMC diweddaraf o 2.4 y cant at gostau nad ydynt yn ymwneud â staff.⁷³ Nid yw'r datchwyddwr hwn wedi newid ers y rhagolygon OBR diwethaf ym mis Mawrth, felly mae'n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o chwyddiant. Mae lwfansau a chostau swyddfa eraill wedi'u cyllidebu i ostwng ychydig, o £18,000 yn 2023-24.

61. Wrth gyflwyno ei gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2022-23 ym mis Mai 2022, penderfynodd y Comisiwn ddangos cefnogaeth weinyddol i'r Bwrdd Taliadau fel llinell yn y gyllideb ar wahân, y tu allan i gostau craidd y Comisiwn. Mae costau staff i gefnogi'r Bwrdd wedi'u cyllidebu i gynyddu yn 2023-24 i £462,000, sef cynnydd o £68,000.

Safbwynt y Pwyllgor

62. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd y cynnydd mewn costau byw yn cael effaith andwyol ar staff y Comisiwn, yn enwedig y rhai ar lefelau is y raddfa gyflog, ac y bydd hyn yn arwain at fwy o staff yn wynebu trafferthion ariannol yn y misoedd i ddod. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn i liniaru effaith y pwysau hyn ar staff: Rydym yn arbennig o falch bod holl staff y Comisiwn yn cael y cyflog byw o leiaf a bod y Comisiwn wedi rhoi polisiau a mentrau hael ar waith i helpu staff drwy gyfnod economaidd anodd.

63. Er bod y Pwyllgor yn derbyn ei bod yn rhy gynnar i werthuso effeithiolrwydd y mentrau hyn, mae'n rhybuddio'r Comisiwn rhag hunanfodlonrwydd ac yn galw am gymryd camau i

⁷¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 47-48

⁷² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 51

⁷³ Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24, 28 Medi 2022, tudalen 19

sicrhau bod y mentrau'n cyflawni eu bwriad datganedig ac yn cyrraedd y bobl gywir. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd mewn unrhyw werthusiadau a gynhaliwyd ac mae'n galw ar y Comisiwn i rannu ei ganfyddiadau o adolygiadau o'r fath.

64. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y gyllideb ddrafft yn cynnwys rhagdybiaethau cyflog sy'n llawer is na chwyddiant a dangosyddion twf cyfartalog mewn cyflogau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y rhain yn seiliedig ar gytundebau hirdymor presennol ag undebau ar gyfer staff y Comisiwn o 2.4 y cant ac o dan drothwy presennol y Bwrdd Taliadau Annibynnol o 3.0 y cant ar gyfer yr Aelodau a'u staff.

65. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod unrhyw godiadau cyflog yn seiliedig ar gynnydd yn nata'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) i Gymru, a bod codiadau cyflog staff y Comisiwn yn seiliedig ar godiadau cyfartalog y tair blynedd 2019, 2020 a 2021. Mae'r cynnydd yng nghyflogau yr Aelodau a staff cymorth yr Aelodau wedi cael ei seilio ar newidiadau 2022, a gyhoeddir ym mis Tachwedd 2022, ond mae'n bosibl y gallai'r Bwrdd Taliadau Annibynnol newid ei ddull yn y Penderfyniad ar gyfer 2023-24.

66. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach, gan fod y cytundeb cyflog i staff y Comisiwn yn seiliedig ar godiadau hanesyddol ac oherwydd yr ansicrwydd sylweddol ynghylch uchafbwynt tebygol a hyd y chwyddiant uchel a brofir ar hyn o bryd, bydd oedi rhwng y cyfnod pan fydd cynnydd mewn chwyddiant cyflogau yn cael ei adlewyrchu mewn codiadau cyflog i staff a hefyd ar ôl i chwyddiant cyflogau ostwng.

67. Er bod y Pwyllgor yn derbyn bod y trefniadau tâl presennol ar gyfer staff y Comisiwn ar waith tan 2025, mae'n credu y dylai'r Comisiwn barhau i fonitro'r rhagolygon ar gyfer cyllid a thâl y sector cyhoeddus yn 2023-24 i wneud yn siŵr bod unrhyw benderfyniadau ar gyflogau yn y dyfodol yn cyfateb yn fras i'r rhai a wneir mewn rhannau eraill yn y sector cyhoeddus yn enwedig fel nad yw'r rhai ar raddau is yn waeth eu byd.

68. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymrwymadau a wnaed gan y Comisiwn i ddychwelyd cyllid a dderbyniwyd drwy'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2022-23 yn dilyn y gostyngiad yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae hefyd yn nodi bod y cyllid hwn wedi'i gynnwys yn y waelodlin ar gyfer cyllideb 2022-23 y Comisiwn ac mae'n nodi ymhellach benderfyniad y Comisiwn i ddileu'r cyfraniadau hyn o'i gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Senedd ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gyfer staff a/neu staff ar gyflogau is a allai wynebu anawsterau ariannol wrth i effeithiau'r cynnydd mewn costau byw gael eu teimlo.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Senedd roi camau ar waith i werthuso effeithiolrwydd y mentrau y mae wedi'u cyflwyno i liniaru effaith pwysau costau byw ar staff a rhannu ei ganfyddiadau o adolygiadau o'r fath.

5. Ymgysylltu

69. Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi y bydd y Comisiwn "yn manteisio i'r eithaf ar y ffyrdd newydd o weithio drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i wella cyfranogiad a phrofiad y gynulleidfa ymhellach".⁷⁴

70. Yn ei adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23, argymhellodd y Pwyllgor bod y Comisiwn yn adrodd ar ei lwyddiant neu fel arall wrth ymgysylltu â charfannau sy'n anodd eu cyrraedd – yn enwedig y rheini sydd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is – er mwyn sicrhau bod ei weithgareddau ymgysylltu ac allgymorth yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian.⁷⁵

71. Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd am y gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd gan y Comisiwn yn y maes hwn, cyfeiriodd y Comisiynydd at y dulliau newydd a fabwysiadwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn 2022-23:

"The business directorate were looking at how committees would be able to operate in a more inclusive way by not just using technology to invite people in who are from hard-to-reach cohorts in a virtual way, but also how we as committee members can get out into communities to see for ourselves the challenges that people are facing. And certainly, on the committees that I am a member on, the engagement with hard-to-reach cohorts has improved quite considerably over the past year".⁷⁶

72. Fe wnaeth y Comisiynydd hefyd nodi bod ymgysylltu â phobl ifanc o garfannau anodd eu cyrraedd, trwy waith y Senedd leuenctid, wedi cynyddu'n sylweddol:

"If you look specifically at one group—that being young people—in terms of the Youth Parliament, a third of the membership of the Youth Parliament is made up of young people who are from those hard-to-reach cohorts on a regional basis, ethnic basis and socioeconomic basis. And in terms of engagement through the Youth Parliament, in spite of all of the challenges that COVID presented us with, more than 26,000 young people registered,

⁷⁴ Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft Senedd Cymru 2023-24, 28 Medi 2022, tudalen 16

⁷⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2022-23, Hydref 2021, tudalen 32

⁷⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 169

*and that represents an increase of something in the order of 8 per cent on 2018. So, a pretty significant increase."*⁷⁷

73. Fodd bynnag, ychwanegodd y Prif Weithredwr air o rybudd gan ddweud efallai na fydd modd cyflawni pob prosiect ymgysylltu o fewn cyllidebau'r dyfodol:

*"there are very ambitious engagement projects that we could embark on But that would take up the entirety of our engagement budget, and we would need to discuss that very carefully with the Commission."*⁷⁸

74. Roedd hyn yn adleisio sylwadau a wnaed gan y Comisiwn mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2022 lle nododd y gallai "awydd Aelodau a phwyllgorau i lywio strategaeth ymgysylltu'r Comisiwn" arwain at gostau ychwanegol na ellir eu hymgorffori yn y gyllideb weithredol bresennol.⁷⁹

Safbwynt y Pwyllgor

75. Mae'r Pwyllgor yn falch o'r cynnydd a wnaed gan y Comisiwn wrth estyn allan at garfannau nad ydynt wedi ymwneud yn y gorffennol â'r Senedd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r mentrau hyn ac yn credu bod y gwaith a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd a'r Senedd leuenctid yn y maes hwn yn gyflawniadau nodedig.

76. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen buddsoddiad pellach gan y Comisiwn er mwyn deall cynulleidfaoedd yn well ac adeiladu ar yr arferion da sy'n cael eu datblygu. Fodd bynnag, mae hefyd yn derbyn na all y Comisiwn weithredu pob cynnig sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu o fewn y cyllidebau presennol a bod angen gwneud mwy i ddeall barn Aelodau yn y maes hwn a'r costau ychwanegol cysylltiedig o'u cyflawni.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn gofyn am farn yr Aelodau er mwyn deall yn well y gwaith ymgysylltu y maent am ei ddatblygu ac, unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, dylai roi diweddariad i'r Pwyllgor ar sut y gellir cyflwyno cynigion o'r fath o fewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

⁷⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 170

⁷⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2022, paragraff 176

⁷⁹ Llythyr gan Ken Skates AS, 2 Chwefror 2022